Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Caban Aur

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r radd yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu yn ôl yr adran hon yw adrodd am gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2017**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol fechan dan berchenogaeth Afon Goch Children's Homes Limited yw Caban Aur. Mae wedi ei lleoli yn ei thir ei hun mewn lleoliad gwledig ar Ynys Môn, wedi ei hamgylchynu gan warchodfa natur. Mae'r ysgol yn darparu addysg i fechgyn a merched ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n byw yn un o ddau gartref preswyl y cwmni. Adeg yr arolygiad, roedd tri disgybl 15 ac 16 oed yn mynychu'r ysgol. Mae pob un o'r plant dan ofal yr awdurdod lleol. Mae gan ddau o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae llety'r ysgol yn cynnwys un ystafell ddosbarth fechan yng nghartref plant Caban Aur. Mae'r rhan fwyaf o'r gwersi'n cynnwys addysgu un-i-un yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn defnyddio ardaloedd eraill y cartref hefyd, fel y gegin a'r lolfa, i addysgu agweddau ar y cwricwlwm. Mae pennaeth yn rheoli'r ysgol, wedi ei gefnogi gan un athro amser llawn a phedwar athro rhan-amser. Bu'r pennaeth yn y swydd ers i'r ysgol agor yn 2012.

Oherwydd bod yr ysgol wedi ei lleoli mewn cartref plant, mae staff gofal ar y safle yn ystod y dydd. Yn rhan o'u rôl, maent yn cynorthwyo disgyblion pan fyddant yn dangos ymddygiad heriol ac nid ydynt yn ymwneud â'r addysgu.

Mae ail gartref plant y cwmni, sef Afon Goch, wedi ei leoli yng Ngwynedd. Lle y bo'n briodol, mae disgyblion o Afon Goch yn mynychu'r ysgol yng Nghaban Aur. Yn ogystal, mae athrawon o Gaban Aur yn darparu addysgu yn Afon Goch ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion nad ydynt yn gallu mynychu Caban Aur.

Mae'r flwyddyn ysgol yn cynnwys wyth tymor sy'n para pum wythnos, gyda bylchau o wythnos neu ddwy rhwng pob tymor.

Dyma yw arolygiad llawn cyntaf yr ysgol.

Oherwydd bod llai na phump o ddisgyblion yn yr ysgol, ni roddodd yr arolygwyr farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, safonau na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o ddisgyblion i adrodd arnynt heb nodi disgyblion unigol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae Caban Aur yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r ysgol yn darparu amserlen strwythuredig amser llawn sy'n cynnwys gwersi ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn ogystal â chelf, astudiaethau crefyddol a Chymraeg
- Mae'r ysgol yn cynllunio gwaith unigol perthnasol i helpu disgyblion i wneud cynnydd addas
- Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth reolaidd i ysgogi disgyblion
- Mae athrawon yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i fagu hyder ac yn cynyddu eu hunan-barch

Fodd bynnag:

- At ei gilydd, nid oes unrhyw arloesedd yn y rhaglenni astudio ac nid ydynt yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda bob tro
- Nid yw systemau i hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol
- Nid yw targedau yng nghynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn ddigon penodol nac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r wybodaeth yn natganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion
- Mae cynllun yr adeilad yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion ffocysu'n ddigon da ar eu dysgu
- Nid yw'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r staff addysgu yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol
- Mae'r pennaeth a'r perchennog yn cyfathrebu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i reoli eu hanawsterau a'u pryderon ac ymrwymo i'w haddysg
- Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, a chaiff y rhain eu hadlewyrchu'n dda yng nghynllun datblygu'r ysgol
- Mae'r ysgol wedi gwneud ychydig o welliannau pwysig sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol

Fodd bynnag:

- Nid oes cysylltiad digon da rhwng y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr ysgol a'r cartref plant
- Mae cyfarfodydd addysg yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar faterion strategol
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn argymhellion ymweliadau monitro blaenorol Estyn
- Nid oes gan reolwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

- Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.
- Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:
    - Sicrhau, lle mae gan ddisgyblion ddatganiad, bod yr addysg a ddarperir yn cyflawni ei ofynion 1(2)(e)

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

- Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.
- Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:
    - Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, er mwyn cydymffurfio â Chylchlythyr 005/2008 3(2)(b) Llywodraeth Cymru
    - Paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol, sy'n ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru: 'Ymweliadau Addysgol – Canllawiau diogelwch ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth' 2008. 3(2)(c)
    - Paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion, sy'n amlinellu'r cosbau a fydd yn cael eu mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn 3(2)(d)
    - Cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion am dramgwyddau disgyblu difrifol 3(8)

### Addasrwydd perchnogion a staff

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod strategaeth glir ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion sy'n cael ei gweithredu'n gyson ar draws y sefydliad

A3 Manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dysgu i ddarparu profiadau dysgu amrywiol a chymhellol

A4 Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff addysgu a staff gofal yn ystod y dydd yn cael eu deall yn glir

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio ei chynllun datblygu cyfredol i ddangos y camau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Caiff ei chynghori i ddosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i holl rieni'r ysgol hefyd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | n/a |
|---|---|

**Safonau:** Ni luniwyd barn

**Lles:** Ni luniwyd barn

Ni luniodd yr arolygwyr farn ar gyfer safonau na lles.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r ysgol yn darparu amserlen strwythuredig amser llawn sy'n cynnwys gwersi ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r ysgol hefyd yn cynnwys celf, astudiaethau crefyddol a Chymraeg. Mae cynlluniau gwaith manwl, priodol ar gyfer y pynciau hyn sydd wedi eu seilio ar y gofynion ar gyfer cyrsiau TGAU. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno ychydig o gyrsiau achrededig ychwanegol, er enghraifft adeiladu galwedigaethol, er mwyn ymateb i gais gan ddisgybl.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am bynciau eraill trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol, a hefyd trwy ymweliadau achlysurol â mannau o ddiddordeb. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â chestyll lleol, gorsaf badau achub a chwarel lechi.

Mae athrawon yn sicrhau bod cynllunio yn rhoi sylw priodol i wella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Yn aml, mae disgyblion wedi colli rhannau mawr o'r cwricwlwm yn eu lleoliadau blaenorol, ac mae'r ysgol yn cynllunio gwaith unigol perthnasol i'w helpu i wneud cynnydd addas. Mae'r tymor pum wythnos yn helpu disgyblion i gynnal momentwm yn eu dysgu. Mae staff yn cynllunio modiwlau o weithgareddau corfforol addas ar gyfer un prynhawn yr wythnos, er enghraifft dringo neu gerdded bryniau.

Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes unrhyw arloesedd yn y rhaglenni astudio ac nid ydynt yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda bob tro. Mae'r ystafell ddosbarth fechan yn cyfyngu ar weithgareddau. Nid yw staff yn rhoi ystyriaeth ddigon da i hyn wrth gynllunio. Nid ydynt yn ddigon creadigol wrth gynllunio sut i ddefnyddio'r amgylchedd ehangach; er enghraifft, nid ydynt yn defnyddio'r lle yn yr awyr agored nac yn trefnu cyfleoedd dysgu oddi ar y safle ddigon i ehangu'r cwricwlwm a galluogi defnydd mwy priodol o'r ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau ffurfiol.

Mae ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion gael profiad o'r byd gwaith, naill ai yn yr ysgol neu yn y gymuned leol.

## Addysgu:  Digonol

Mae’r holl athrawon yn cynllunio gwersi’n drylwyr ac yn gosod amcanion clir ar gyfer gwersi.  Maent yn gweithio’n galed i gymell disgyblion ac ennyn eu diddordeb trwy ganmoliaeth ac anogaeth reolaidd.  Maent yn bwyllog, sy’n helpu disgyblion i fagu hyder.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio trafod yn dda i gymell a herio meddwl disgyblion, er enghraifft wrth weithio ar hawliau’r plentyn.  Maent yn fodelau iaith da.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn darparu tasgau diddorol sy’n ennyn diddordeb disgyblion yn dda.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o weithgareddau i gynnal diddordeb disgyblion a’u gallu i ganolbwyntio.  Nid oes gan athrawon strategaethau cyson i reoli ymddygiad heriol.  O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gadael yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd ac nid ydynt yn dychwelyd yn gyflym.  Mae hyn yn golygu eu bod yn colli allan ar weithgareddau addysgu a dysgu pwysig.

Mae’r ysgol yn cynnal asesiadau gwaelodlin addas, gan gynnwys profion darllen a sillafu, pan fydd disgyblion yn ymuno â’r ysgol.  Mae’r wybodaeth hon yn ddefnyddiol o ran penderfynu ar fan cychwyn priodol ar gyfer gwaith disgyblion.  Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion mewn pynciau craidd ac yn rhannu’r wybodaeth hon â’r disgyblion.  Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall y cynnydd y maent yn ei wneud. Mae athrawon yn llenwi graddfeydd ymrwymiad a chyrhaeddiad dyddiol,  ond nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol bob tro i addasu addysgu yn y dyfodol i fodloni anghenion disgyblion.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol yn rheolaidd.  Fodd bynnag, yn aml, nid yw adborth ysgrifenedig yn awgrymu ffordd ymlaen er mwyn i ddisgyblion wella.

Mae’r ysgol yn darparu adroddiadau clir a llawn gwybodaeth ar gynnydd addysgol disgyblion bob tymor ac ar ddiwedd y lleoliad i rieni a’r awdurdodau sydd wedi eu lleoli.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Anfoddhaol

Mae athrawon yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion, sy’n eu helpu i fagu hyder ac yn cynyddu eu hunan-barch.  Mae’r ysgol yn annog disgyblion i ddatblygu ffordd iach o fyw trwy addysg yn yr awyr agored a darparu prydau bwyd maethlon.

Mae’r ysgol yn trefnu rhaglen ABCh ddefnyddiol sy’n ategu datblygiad cymdeithasol a moesol disgyblion yn dda; er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am faterion cyfredol ac agweddau ar fyw o ddydd i ddydd, gan gynnwys addysg perthnasoedd. Mae cyfle priodol ar ddiwedd pob diwrnod ysgol i ddisgyblion fyfyrio ar eu hymddygiad eu hunain a’u hymrwymiad mewn gwersi.  Mae gwersi astudiaethau crefyddol a chelf, ac ymweliadau gan weinidog lleol, yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o gredoau ysbrydol pobl eraill a’u gwahaniaethau diwylliannol.

Mae ystod o arbenigwyr proffesiynol, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn darparu cymorth priodol ar gyfer anghenion disgyblion unigol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyfforddi staff a diogelwch ar y safle, yn ogystal â pholisïau yn ymwneud, er enghraifft, ag ymateb yr ysgol i honiadau o fwlio.

Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.  Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes cysylltiad digon da rhwng y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr ysgol a'r cartref plant.  Er ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau'r ysgol, mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi a chrynhoi gwybodaeth yn aneglur.  O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn monitro'r gweithgareddau hyn yn ddigon da, ac nid oes ganddynt drosolwg cywir o weithdrefnau diogelwch.

Nid yw systemau i hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol.  Nid yw'r ysgol yn amlinellu gweithdrefnau clir sy'n cael eu dilyn yn gyson gan staff addysgu a staff gofal.  Nid oes gan ddisgyblion unigol gynlluniau ymddygiad.  Mae polisi'r ysgol ar gyfer gwobrwyo a chosbi yn rhy gyffredinol.  Nid yw staff yn cofnodi digwyddiadau difrifol yn ddigon gofalus bob tro i ddarparu cofnod ffurfiol.

Nid yw targedau yng nghynlluniau addysg unigol (CAU) disgyblion yn ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth lawn i'r wybodaeth yn natganiadau disgyblion o anghenion addysgol arbennig.  Er y caiff CAUau eu hadolygu ar ddiwedd pob tymor pum wythnos, yn aml, mae targedau'n aros fel y maent oherwydd eu bod yn rhy gyffredinol.  Nid yw'n hawdd i ddisgyblion fesur eu cynnydd yn erbyn y targedau hyn.

**Yr amgylchedd dysgu:  Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle gall disgyblion fanteisio'n gyfartal ar bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr, rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i ddysgu beth yw ystyr parch.

Mae'r ystafell ddosbarth fechan yn darparu amgylchedd dysgu priodol ar gyfer gweithgareddau dosbarth cyfan.  Fodd bynnag, lle mae disgyblion yn dilyn rhaglenni unigol, mae'r lle cyfyngedig yn cyfyngu ar allu athrawon i ddarparu sesiynau amrywiol, diddorol ac mae'n effeithio ar ansawdd dysgu.  Mae'r ysgol wedi ymdrechu i aildrefnu amserlenni er mwyn gwella hyn.  Mae cynllun yr adeilad yn ei gwneud yn anodd creu gwahaniad clir rhwng yr ysgol a'r cartref, yn enwedig pan fydd disgyblion yn ymddieithrio ac yn gadael yr ystafell ddosbarth.  Ar adegau, mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion ganolbwyntio'n ddigon da ar eu dysgu.

Mae ystod dda o werslyfrau ac adnoddau ffeithiol, ac ychydig o adnoddau ymarferol addas, gan gynnwys cyfrifiaduron.  Mae arddangosiadau priodol i ategu dysgu a dathlu medrau disgyblion yn yr ystafell ddosbarth a'r lolfa.  Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r llety yn hen yr olwg ac mae rhannau o'r ysgol mewn cyflwr gwael.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth a'r perchennog weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i reoli eu hanawsterau a'u pryderon ac ymgysylltu â'u haddysg. Mae'r perchennog yn rhoi ffocws cryf ar bwysigrwydd addysg ac yn cynorthwyo staff i gyflawni ei rolau trwy ddarparu hyfforddiant perthnasol ac adnoddau priodol.

Mae'r pennaeth a'r staff addysgu yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol ac maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm. Mae cyfathrebu yn y tîm addysgu yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn ddelfryd ymddwyn cryf i'r staff ac mae'n hyrwyddo amgylchedd tawel a chefnogol, lle gall disgyblion fagu hyder a hunan-barch. Mae'n defnyddio ei brofiad yn effeithiol i gynorthwyo staff newydd.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd addysg rheolaidd, yn cynnwys athrawon a rheolwyr gofal. Mae staff yn cadw nodiadau manwl o'r cyfarfodydd hyn, sy'n cynnwys pwyntiau gweithredu perthnasol. Fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd hyn yn ymdrin yn bennaf â rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar faterion strategol fel hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae gan staff addysg rolau a chyfrifoldebau clir. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r staff gofal yn ystod y diwrnod ysgol, o ran cynorthwyo disgyblion a rheoli ymddygiad. Nid yw'n glir p'un a yw'r staff hyn yn atebol i'r pennaeth neu'r rheolwyr gofal. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r pennaeth i reoli'r ysgol mor effeithiol ag y gallai.

Caiff athrawon gyfarfodydd cynlluniedig rheolaidd â'r pennaeth i drafod eu gwaith a chodi unrhyw bryderon. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon dargedau ffurfiol y gellir adolygu eu perfformiad yn eu herbyn.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau defnyddiol ar gyfer olrhain cyrhaeddiad disgyblion a'u hymrwymiad mewn gwersi. Maent wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i nodi tueddiadau a thrafod cynnydd â'r disgyblion.

Nid yw'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu, a chaiff y rhain eu hadlewyrchu'n dda yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys meysydd priodol ar gyfer gwella. Mae cyfrifoldebau'n glir ac amserlenni'n realistig. Mae'r pennaeth yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r athrawon yn gwbl ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol, na'u rôl o ran mynd i'r afael â nhw.

Er bod yr ysgol yn llunio adroddiad hunanarfarnu blynyddol manwl, nid yw'r prosesau hunanarfarnu parhaus wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid oes gan yr ysgol drefniadau ffurfiol i geisio barn yr holl randdeiliaid.

Mae'r ysgol yn cynnal arsylwadau gwersi anffurfiol yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cyflwyno arsylwadau gwersi ffurfiol. Mae adborth ysgrifenedig yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu o ran addysgu a dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi arwain at welliant mewn addysgu. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Nid yw rheolwyr yn dadansoddi'r canfyddiadau nac yn eu defnyddio i wella arfer yr ysgol gyfan.

Mae'r ysgol wedi gwneud ychydig o welliannau pwysig sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae cynnydd yn nifer yr athrawon yn golygu bod gan y pennaeth fwy o amser i gyflawni ei rolau arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae hefyd wedi galluogi'r ysgol i ddarparu ystod ehangach o bynciau sy'n cael eu haddysgu gan staff ag arbenigeddau penodol, er enghraifft celf. Mae prynu system technoleg gwybodaeth ar-lein yn golygu y gall athrawon rannu adnoddau a dogfennau cynllunio yn rhwyddach.

Er bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o ymweliadau monitro blaenorol Estyn, bu'n araf wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr ymweliad diweddaraf. Yn bennaf, mae hyn oherwydd bod diffyg gwybodaeth am arfer dda yn golygu nad oes gan reolwyr ddealltwriaeth ddigon clir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth fuddiol iawn ag ysgol uwchradd leol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a staff. Mae'n galluogi disgyblion i ennill achrediad mewn ystod o gymwysterau TGAU, gan gynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a chelf. Mae'r pennaeth a'r athrawon yng Nghaban Aur hefyd yn elwa ar gyngor defnyddiol gan staff yr ysgol honno. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gymedroli aseiniadau celf ac asesiadau rheoledig mewn gwyddoniaeth, yn ogystal â gwybodaeth am ofynion arholiad llefaredd.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi meithrin partneriaeth ddefnyddiol â busnes lleol. Mae hyn yn galluogi ychydig o ddisgyblion i ehangu eu profiadau dysgu trwy arsylwi artist tatŵau wrth ei waith.

Mae cysylltiadau agos â chartref plant arall y cwmni yn caniatáu i ychydig iawn o'r disgyblion fynychu'r ysgol yng Nghaban Aur pan na allant ymdopi â lleoliad prif ffrwd. Mae hyn yn golygu y gallant barhau â'u haddysg a gwneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Gyrfa Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a CAMHS. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer anghenion disgyblion unigol.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi dod yn rhan o grŵp ymgynghorol sy'n gweithio tuag at wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu'r effaith ar safonau neu les disgyblion.

Mae partneriaethau strategol eraill yn gyfyngedig iawn. Nid oes gan athrawon gyfleoedd i arsylwi arfer dda mewn ysgolion eraill. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffyrdd y gallai'r ysgol wella.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r perchennog yn sicrhau bod digon o athrawon â phrofiad a chymwysterau perthnasol. Ers sefydlu'r ysgol, mae wedi cynyddu'n barhaus nifer yr athrawon sy'n cael eu cyflogi. Mae'n cynorthwyo'r staff i ddatblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd trwy hyfforddiant a chyrsiau achrededig; er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi ennill cymhwyster mewn anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i athrawon ddatblygu eu harfer trwy arsylwi cymheiriaid. Lle mae gan athrawon arbenigedd cyfyngedig mewn pwnc penodol, mae'n eu hannog i gydweithio â'i gilydd i rannu eu gwybodaeth.

Mae'r perchennog a'r pennaeth yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol i sicrhau bod adnoddau addysgu priodol ar gael. Mae'r ysgol yn cynnal gwaith atgyweirio hanfodol yn rheolaidd, fel amnewid ffenestri a drysau difrodedig. Fodd bynnag, mae llai o ffocws ar gynnal a chadw ansawdd cyffredinol yr amgylchedd dysgu. Nid yw'r ysgol yn manteisio i'r eithaf ar yr ardaloedd addysgu cyfyngedig sydd ar gael.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Tîm |
| Susan Lynne Painter | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Scudamore | Arolygydd Safonau Ysgolion Annibynnol |
| Neil Bridgstock | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Perchennog | Mae'r term 'perchennog', fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1996, yn golygu'r unigolyn neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol a gall gynnwys unig berchennog, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r ffyrdd y caiff ysgolion annibynnol eu llywodraethu a'u perchnogi yn amrywio'n fawr. Gallai perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu gallai'r ysgol gael corff llywodraethol sy'n penodi pennaeth. Mae cyfuniad o'r rhain mewn rhai ysgolion. |